**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 22.1.26**

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:905: Presennol:** Bedwyr Fychan (Cadeirydd), Deryck Lewis, Rhodri Wigley, Gareth Wyn Jones, Iwan Pughe Jones, Aled Griffiths, Paul Hughes, Glyn Jones, Dafydd Evans, Sandra Evans (Clerc)

**19:906: Ymddiheuriadau**: Gwen Lloyd. William Owen, Huw Williams, Gareth Owen.

**19:907: Materion Personol: -**Nodwyd gyda thristwch farwolaeth Mrs. Ann Williams Cwmlline a oedd yn gyn-gynghorydd Cyngor Cymuned Glantwymyn. Roedd Ann wedi mynegi gyda balchder yn y gorffennol mai hi oedd y cynghorydd benyw cyntaf i ymuno â'r Cyngor.

Dymuna'r Cyngor estyn ei gydymdeimlad dwysaf i Dilwyn a'r teulu.

**19:908: Datganiadau o ddiddordeb**: Dim

**19:909: Cyflwyno a derbyn cofnodion 18.12.25**. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn gan Rhodri Wigley ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.

**19:896: Materion yn codi o'r cofnodion.**

**19:897: Adroddiad y Clerc-** Mae'r awdit allanol wedi cael ei ddanfon i Swyddfa'r Awdit ers mis Rhagfyr.

Mae halen wedi cyrraedd rhai ardaloedd. Bydd Cyngor Sir Powys yn trwsio'r manhole yn Abercegir ac wyneb y ffordd ger Teras Glanfellin Terrace etc.

**19:898: Cynllunio: -**Dim

**19:899: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Cyflog y Clerc Mis Rhagfyr (8) £346.70
- HMRC £689.59 (Cyfnod 3)
- Diweddariad ariannol - Balans cyfrif cyfredol y Cyngor yw 6214.74 (9.12.25) a balans y cyfrif cynilon yw £1171.10 (8.12.25)
- Diweddariad taliadau awdit - Cysylltir â swyddfa'r Awdit i gadarnhau faint sy'n weddill o'r taliadau hanesyddol.

**19:900:** Gwefan - Yn dilyn penderfyniad y cyngor i newid darparwyr yn y flwyddyn ariannol Newydd, cafwyd manylion a phrisiau 4 cwmni sef Mid Wales Media, Cows house Media, Gloversure a HG Web Designs. Penderfynwyd mai H G Web Designs fyddai orau ar sail y gwasanaeth a gynigir a'r gost. Cynigiwyd hyn gan Iwan Pughe Jones ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans

**19:901: Hyfforddiant –** Tynnwyd sylw at y cyrsiau Un Llais Cymru. Mae'r manylion wedi cael ei rhannu yn ôl yr arfer.

**19:902: Gosod y Praesept a thrafod cyllid.**

Penderfynwyd ar y cyllid fel a ganlyn:

Cyflog y Clerc a HMRC – 4,300.00

Costau'r Clerc - 350.00

Yswiriant – 1,200.00

Torri gwair mynwentydd – 2,880.00

Gwaith yn y mynwentydd – 1,000.00

Atgyweirio dodrefn – 800.00

Costau'r wefan 800.00

Amrywiol – torch – 25.00

Llogi ystafell – 220.00

Costau cynghorwyr – dim

Costau'r awdit gan gynnwys taliadau hanesyddol – 1500.00

Cyfraniad i Ganolfan Glantwymyn- 1500.00

Costau cyflogres a PAYE – 850.00

Cyfanswm 15,425.00

Ar sail hyn gofynnir am £15,425 sef yr un faint a'r llynnedd, Cynigiwyd hyn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths a phawb yn unfrydol.

**19:903: Gohebiaeth** – Derbyniwyd llythyr gan Sarah Reast yn mynegi pryderon bod cynghorau cymuned o bob maint yn wynebu'r un gofynion, o ran awdit allanol a bod y nodwyd bod y gofynion hynny'n gynyddol gan gynyddu'r gofynion o ran cost ac amser, nodwyd bod gan gynghorau tref a chymuned arbenigwyr cyflogedig ar gyfer gwahanol feysydd, yn wahanol i gynghorau llai. Penderfynwyd ymateb i gefnogi ei chais hi a'r pwyntiau dilys a godwyd. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Wyn Jones.

**19:904: Diffib Tal-y-wern**. Penderfynwyd gosod y diffib ar bolyn lamp wrth gyrraedd y pentre. Cysylltir â Chyngor Sir Powys i drefnu hyn.

**19:905: Adroddiadau'r Cynghorwyr** - Dim

**19:906: Ffyrdd a Phontydd:**

- Ceir yn parcio ochr y ffordd yn Llanwrin ac yn blocio'r ffordd. Mynegwyd pryderon am ddiogelwch. Cysylltir â Chyngor Sir Powys.
- Angen sweeper i lanhau ffordd Llanwrin
- Glantwymyn ger Llys Dyfi /Bryn Dyfi - hen trench BT wedi suddo'n isel a chreu a pheryglon i'r cyhoedd. SY20 8JZ
- Ffordd Cemaes i droad y melinau gwynt – ffordd wedi suddo – creu difrod i gerbydau
- Pont Cemaes – dal heb gael ei thrwsio. Cysylltir â Mr. Arwyn Williams
- Cyfyngder cyflymder Cemaes – Cysylltir ag Elwyn Vaughan i drefnu cyfarfod yn y pentre gydag e, Cyngor Sir Powys ac Arwyn Williams

**19:907: Unrhyw fater arall –** Presenoldeb mewn cyfarfodydd. Anogir pawb i geisio mynychu cymaint â phosib er mwyn cyflawni eu rolau'n briodol a sicrhau cynrychiolaeth deg.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.33yh

Cynhelir y cyfarfod nesaf **26.2.26**

**Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 22.1.25**

- Cafwyd **llythyr i ddiolch gan Garmon Griffiths** yn rhannu ei brofiadau am ei daith addysgol i Norwy yn ddiweddar. **Cytundeb EDF** – Gohiriwyd y drafodaeth tan y cyfarfod nesaf. Daeth y cyfarfod i ben am 8.40